



# Cynllun tref ac ardal y Rhyl

Edrych ymlaen gyda'n gilydd 2014 - 2020

Rhifyn Chwefror 2014

*Rhyl*

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi mabwysiadu nod strategol o fod yn “gyngor sy’n perfformio’n dda yn nes at y gymuned”.

Er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r nod hwn, gwahoddodd y Cyngor Sir yr holl gynghorau tref a chymuned a'r busnesau, sectorau cymunedol a gwirfoddol ym mhob un o'i brif drefi a chymunedau llai sy'n gysylltiedig ag ef i uno i ddatblygu “cynlluniau tref”. Mae'r rhain yn ddogfennau byw a fydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac fe fyddant yn nodi

- y sefyllfa bresennol yn y trefi
- heriau allweddol a chyfleoedd y byddant yn eu hwynebu dros y degawd nesaf
- gweledigaeth ar gyfer pob tref i'w darparu â dyfodol cynaliadwy, a
- chamau gweithredu realistig a chyraeddadwy a fydd yn gwireddu'r weledigaeth honno.

Ni ddatblygwyd Cynllun Tref ar gyfer y Rhyl ar yr un pryd ag ar gyfer y trefi eraill yn y sir oherwydd ar y pwynt hwnnw ystyriwyd mai'r flaenoriaeth uchaf oedd y gwaith o ddatblygu fframwaith strategol ar gyfer adfywio'r dref. O ganlyniad, cafodd Cynllun Cyflawni Cymdogaeth a Lleoedd Y Rhyl yn Symud Ymlaen a oedd yn amlinellu'r holl ymyriadau mewn safleoedd, adeiladau a materion rheoli cymdogaeth cysylltiedig yn y dref ei gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor Sir ym mis Tachwedd 2011

Mae'r Cyngor wedi cymryd y penderfyniad i ymestyn yr holl Gynlluniau Tref presennol i gynnwys yr ardaloedd gwledig o amgylch, mae bellach hefyd wedi'i gytuno y dylid datblygu Cynllun Tref ar gyfer y Rhyl er mwyn helpu i nodi Camau Blaenoriaeth ac i alinio ffrydiau ariannu posibl gan y cyhoedd, y sector preifat a'r trydydd sector.

Felly, hwn yw'r Cynllun Tref ac Ardal newydd ar gyfer y Rhyl.



## Adran Un

### Gweledigaeth a blaenoriaethau ar gyfer y Rhyl

Roedd yr ardal a elwir bellach yn y Rhyl wedi'i rhestru yn Llyfr Dydd y Farn 1086 fel anheddiad Bren a gafodd ei gwasgaru ymhlith bryniau tywod a morfeydd heli. Roedd Deddf Rhuddlan Marsh Embankment 1794 yn galluogi'r tir i gael ei ddraenio a gyda Deddf Amgaead 1813 ddilynol, daeth tir corsiog adferedig ar gael i'w werthu, a dechreuodd y Rhyl ddatblygu'n un o'r cyrchfannau glan môr poblogaidd newydd.

Cafodd y gwesty cyntaf yn y Rhyl, y Royal, ei adeiladu ym 1825 ac erbyn 1829 roedd gwasanaeth pacedlong rheolaidd yn rhedeg rhwng y dref a Lerpwl. Tyfodd y dref yn raddol drwy ganol a diwedd y 19eg ganrif, yn enwedig mewn ymateb i agor rheilffordd Stephenson o Gaer i Gaergybi ym 1848. Ym 1853 dim ond 604 o dai oedd yn y dref ac erbyn 1881 roedd 1,300 o dai a siopau a phoblogaeth o 6,028. Erbyn 1893, y Rhyl oedd yr anheddiad mwyaf yn hen Sir y Fflint ac roedd ffurf grid nodedig canol y dref wedi'i gwblhau erbyn 1912.

Mae llawer o ganol y Rhyl yn dal i fod fel yr oedd wedi'i adeiladu yn ystod y 19eg ganrif, ac mae'r gweithgareddau glan y môr, er eu bod wedi newid llawer, yn dal yn canolbwyntio ar y fasnach dwristiaeth. Fodd bynnag, mae masnach a diwydiant yn awr yn chwarae rôl gynyddol yn economi'r dref, gan fod y diwydiant twristiaeth wedi newid ac mae dibyniaeth y dref ar y sector hwn wedi gostwng.

Heddiw, mae gan y Rhyl nifer o gyfleusterau cyhoeddus pwysig, gan gynnwys tair ysgol uwchradd, coleg, dwy theatr, llyfrgell, canolfan gofal iechyd sylfaenol ac ysbyty, harbwr a gorsaf dân gymunedol. Clwb Golff y Rhyl yw Clwb Golff Hynaf Gogledd Cymru ac yn Aelod Sefydlu Undeb Golff Cymru.

Y dref yw'r brif gyntref yn Sir Ddinbych gyda phoblogaeth o **25,149**.



## Ble'r ydym yn awr

(Mae'r ffigurau gwirioneddol yn cael eu dangos yn yr Atodiad Ystadegol.)

Mae'n amlwg o'r ystadegau bod gwahaniaethau mawr rhwng Gorllewin / De-orllewin y Rhyl a gweddill y dref o ran y strwythur oedran, stoc tai a gweithgarwch economaidd.

### Pobl a Chymuned

O'i gymharu â'r sir gyfan mae gan dref y Rhyl

- ganran uwch o bobl ifanc o dan 15 oed (wedi'u canolbwyntio yn bennaf yn Wardiau'r Gorllewin a'r De-orllewin)
- cyfran is o bobl dros 65 oed (er bod crynodiad o bobl dros 65 oed yn Wardiau'r De a'r Dwyrain)
- dwy ward gyda chyfran uchel o bobl dros 85 oed (Dwyrain a De)
- cyfran uwch o bobl sy'n byw mewn tai Cyngor a thai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- Mwy o bobl yn byw mewn cartrefi gorllawn (wedi'u canolbwyntio yn bennaf yn Ward Gorllewin y Rhyl)

O'i gymharu â'r sir gyfan, mae llai o bobl yn nhref y Rhyl

- wedi eu geni yng Nghymru, ac
- yn gallu siarad Cymraeg

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio fformiwla i fesur amddifadedd o'r enw "Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru". Maent wedi rhannu Cymru yn 1896 o "Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is" sydd fel arfer yn llai na wardiau Cyngor Sir. Yna fe gaiff pob ardal ei graddio gan ddefnyddio amrywiaeth o ddata gan roi sgôr o 1 i'r mwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig â sgôr o 1896. Nid yw'r sgorau mewn blynyddoedd gwahanol yn uniongyrchol gymharol gan fod y ffordd y cyfrifir y mynegai'n newid dros amser.

Yn rhifyn 2011 y Mynegai, mae 11 allan o'r 16 o "Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is" yn y dref yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru i fod yn fwy difreintiedig nag yr oeddent yn 2005. Ym mynegai 2011, mae 5 o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y Rhyl yn cael eu rhestru fel bod yn y

10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda thair o'r rhain yn ward Gorllewin y dref. Yn y ward hon, mae eiddo a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer llety gwyliau wedi dod yn gynyddol yn ffynhonnell o unedau preswyl cost isel. Mae hyn wedi arwain at grynhoad o bobl sy'n economaidd anweithgar a diamddiffyn yn y ward, gan roi straen ar wasanaethau cyhoeddus.

## Swyddi

O'i gymharu â'r sir gyfan,

- mae ychydig yn llai o bobl oed gweithio sy'n byw yn y Rhyl yn gweithio yn y sector gyhoeddus (er bod mwy o bobl yn Sir Ddinbych yn gweithio yn y sector hwn nac mewn unrhyw ardal awdurdod lleol arall ym Mhrydain Fawr sy'n adlewyrchu presenoldeb yr ysbyty cyffredinol dosbarth a phencadlys rhanbarthol amryw wasanaethau cyhoeddus),
- mae mwy o bobl yn gweithio ym maes manwerthu
- mwy o bobl yn gweithio mewn busnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth
- mae canran is o bobl yn gweithio mewn cynhyrchu
- mae canran uwch o bobl sydd o oed gwaith yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.

Er bod rhai stadau diwydiannol a pharciau busnes wedi eu darparu yn y dref, y datblygiad mwyaf helaeth o'r math hwn yn yr ardal yn ystod y blynyddoedd diwethaf fu ym Mharc Busnes Llanelwy sydd 5 milltir i'r de.

## Y Lle

- Mae Canol y Dref yn cynnwys Ardal Gadwraeth a dyluniadau pensaernïol arwyddocaol
- Mae datgysylltu ffisegol rhwng y traeth a'r dref
- Mae nifer o unedau gwag amlwg o fewn canol y dref, rhai ohonynt mewn cyflwr gwael

- Mae gan y dref draethau tywodlyd helaeth a thra byddai ansawdd y dŵr yn Llyn Morol yn cael ei ystyried yn "Rhagorol" gan ddefnyddio'r meini prawf a nodir yng Nghyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi newydd yr UE, gall ansawdd y dŵr sydd agosaf at geg Afon Clwyd gael ei effeithio'n andwyol gan ddeunydd sy'n rhedeg oddi ar gaeau i fyny'r afon yn ystod cyfnodau o law trwm
- Mae llwybrau arfordir hygyrch, deniadol ar ddau lwybr beicio a cherdded cenedlaethol

Cyfraddau'r safleoedd manwerthu gwag – Tachwedd 2013

Mae'r gyfradd safleoedd manwerthu gwag yn sylweddol uwch na chyfartaledd y sir a 2.3% yn uwch nag ar y cyfrif diwethaf yn 2012.

Y Rhyl	17.4%
Sir Ddinbych	11.5%

Mae rhai o'r eiddo yng nghanol y dref wedi eu cynnal yn wael sy'n amharu ar eu hymddangosiad cyffredinol.

## Heriau a chyfleoedd yn y dyfodol

### Pobl a Chymuned

- Mae nifer y bobl dros 65 oed a 85 oed yn wardiau'r Dwyrain a'r De yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Sir Ddinbych.
- Mae nifer y bobl yn y dref yn cynyddu'n sylweddol dros fisoedd yr haf oherwydd y mewnlifiad o ymwelwyr.
- Bydd y Rhyl yn gymwys am gyllid cymunedol o'r fferm wynt ar y môr Gwynt y Môr unwaith y bydd yn dod yn weithredol.
- Nid yw'r canfyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r risg o droseddau yn adlewyrchu'r realiti. Mae nifer o fentrau llwyddiannus gan yr heddlu wedi gweld cyfraddau trosedd yn gostwng o hyd at 25% mewn rhai ardaloedd.
- Mae gan y Rhyl glybiau pêl-droed a rygbi llwyddiannus sydd yn gyfleusterau cymunedol pwysig.
- Bwriedir i Ysgol Uwchradd y dref gael ei hailadeiladu yn gyfan gwbl.

- Mae Ysbyty Cymuned newydd wedi'i gynllunio ar safle Ysbyty Brenhinol Alexandra.
- Mae Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl yn gwella amodau a chreu marchnad dai mwy cytbwys yng Ngorllewin y Rhyl.
- Mae trac beicio mynydd newydd wedi ei greu yng Nglan Morfa sy'n ategu'r trac beicio ffordd 1.3km bresennol.
- Mae cyfle i wneud mwy o ddefnydd o asedau naturiol y Rhyl ar gyfer beicio, cerdded a gwyliau traeth / gweithgareddau.

## Swyddi

- Mae'r Rhyl mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig ag adeiladu fferm wynt ar y môr a'i gweithredu ac mae potensial ar gyfer datblygiad pellach o ran economi morol yn y Dref.
- Nid yw'r ddarpariaeth bresennol o gludiant cyhoeddus yn ddigon hyblyg i alluogi trigolion y dref heb eu cludiant eu hunain i gael mynediad i lawer o'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael ym Mharc Busnes Llanelwy.
- Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych yn nodi safle strategol allweddol ym Modelwyddan, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth a fyddai'n rhesymol hygyrch i bobl sy'n byw yn y Rhyl.
- Mae llawer o'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael yn y dref ei hun yn cael eu talu'n isel ac maent yn dymhorol.
- Mae'r llinell reilffordd o Gaergybi i Gaer yn cynnig ffordd gynaliadwy o deithio i ganolfannau cyflogaeth ymhellach i ffwrdd.

## Y Lle

- Mae pont eiconig newydd i gerddwyr a beicwyr wedi ei hagor ar draws yr harbwr gydag angorfeydd newydd yn yr harbwr ei hun.
- Mae cyfleusterau hamdden sy'n heneiddio a strydwedd anniben yn heriau.
- Mae hen dafarnau'r Bee & Station a Costigan's wedi eu hadfer a byddant yn gallu darparu ar gyfer mathau newydd o gyflogaeth yng nghanol y dref.
- Mae diffyg llety addas i ymwelwyr o fewn y dref ar hyn o bryd.

- Mae nifer o safleoedd gwag sy'n cynnig y potensial ar gyfer ailddatblygu.
- Mae nifer gynyddol o unedau gwag yng nghanol y dref gyda'r bygythiad o adleoli pellach.
- Mae ansawdd dŵr uchel yn cynnig y potensial ar gyfer anrhydeddau pellach ar gyfer Llyn Morol ac yn nhraeth ymdrochi Rhodfa'r Dwyrain.
- Mae potensial ar gyfer gwelliannau i gysylltedd y dref drwy foderneiddio / trydaneiddio ehangach gwasanaethau rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru.
- Mae'r Cyngor Sir yn archwilio'r opsiynau ar gyfer y cyfleusterau hamdden a thwristiaeth arfordirol, gan gynnwys cynlluniau i sicrhau datblygwr preifat i ddarparu'r Canolfan Ddyfrol newydd yn y Rhyl.



## Gweledigaeth ar gyfer Y Rhyl

Rydym am i'r Rhyl i fod yn lle hyd yn oed gwell i bobl fyw ynddo ac i ymweld ag ef, lle;

- bydd pobl yn dewis byw ym mhob rhan o'r dref, yn hytrach na chael eu gorfodi i fyw mewn rhai ardaloedd trwy eu hamgylchiadau personol sydd yn wir ar hyn o bryd;
- bydd swyddi yn hawdd i gael mynediad atynt, boed hyn mewn cyflogwyr yn y dref ei hun neu mewn canolfannau cyflogaeth cyfagos;
- mae sector morol sy'n tyfu yn seiliedig ar y cyfleusterau harbwr newydd a'r cyfleoedd y mae'r diwydiant ynni ar y môr yn eu darparu;
- mae canol tref bywiog sydd â'r nifer a'r math o unedau manwerthu sy'n briodol i lefelau galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol;
- mae atyniadau sy'n apelio at chwaeth bresennol ymwelwyr ac sy'n darparu dehongliad modern o brofiad glan môr traddodiadol; a
- mae ymdeimlad cryf o le a balchder yn lleol, gydag enw da cadarnhaol y tu allan i'r ardal.

## Gwneud iddo ddigwydd...

ar gyfer y bobl a'r gymuned

Gweithgaredd	Cyfeirnod Strategaeth Uchelgais Economaidd	Bydd hyn yn cael ei arwain gan	Canlyniad	Dechrau	Gorffen	Cost mewn £000'oedd
Nodi eiddo mwy addas a hygyrch ar gyfer y Swyddfa Gofrestru.	6.2	Cyngor Sir - Asedau Strategol	Adleoli'r Swyddfa Gofrestru	1 Ebrill 2015	<b>31 Mawrth 2017</b>	
Ystyried cynnwys y cyfleusterau hynny sydd wedi eu nodi fel blaenoriaethau gan y gymuned yn yr ysbyty cymunedol newydd.	5.3	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cynllun diwygiedig	1 Ebrill 2015	<b>31 Mawrth 2017</b>	
Sicrhau y bydd y gwelliannau arfaethedig ar gyfer yr Orsaf Reilffordd yn hygyrch i bawb ac yn darparu ar gyfer anghenion y gymuned.	1.1	Network Rail	Mynediad yn ystod y nos i gyfleusterau'r orsaf a gwell diogelwch.	1 Ebrill 2014	<b>31 Mawrth 2015</b>	Dim

## Gwneud iddo ddigwydd...

ar gyfer canol y dref

Gweithgaredd	Cyfeirnod Strategaeth Uchelgais Economaidd	Bydd hyn yn cael ei arwain gan	Canlyniad	Dechrau	Gorffen	Cost
Datblygu a chyflwyno Strategaeth ar gyfer Canol y Dref	5.1	Cyngor Sir - Uned Datblygu Economaidd a Busnes	Cyhoeddi strategaeth a chynllun gweithredu gan ddynodi meysydd cyfrifoldeb.	1 Hydref 2013	31 Mawrth 2014	Dim
Cryfhau gwaith partneriaeth a chydlynu darpariaeth gwasanaeth o fewn canol y dref	5.1	Cyngor Sir – Uned Datblygu Economaidd a Busnes	Cytuno ar bartneriaeth i swyddogaeth reoli canol tref newydd	1 Ebrill 2014	30 Medi 2014	Dim
		Heddlu Gogledd Cymru	Gwella ac ymestyn y cyswllt radio Canol y Dref	1 Ebrill 2014	<b>31 Mawrth 2015</b>	Dim
Cynyddu nifer yr ymwelwyr â Chanol y Dref	5.1	Y Cyngor Tref	Ariannu rhaglen ddigwyddiadau	1 Ebrill 2015	<b>31 Mawrth 2017</b>	I'w gytuno
Creu strydwedd mwy deniadol yng Nghanol y Dref	5.1	Cyngor Sir - Rheoli Rhwydwaith	Manteisio ar y cyfleoedd a ddarperir gan gyfleoedd priffyrdd a gynlluniwyd i ystyried lledu'r ffordd a gwelliannau i gael eu gwneud i'r strydwedd.	1 Hydref 2014	31 Mawrth 2015	£200,000

	5.1	Cyngor Sir - Strydwedd	Amnewid dodrefn stryd.	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015	
		Cyngor Sir - Uned Gwaith	Gosod gwifrau crog yn y Stryd Fawr sy'n gallu cario baneri a goleuadau Nadolig, ond bydd hefyd yn helpu i leihau'r problemau a achosir gan adar.	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015	
		Cyngor Sir - Strydwedd	Gwell trefn o lanhau strydoedd.	1 Ebrill 2014	<b>31 Mawrth 2015</b>	Dim
		Y Cyngor Tref	Ariannu plannu gwell yng nghanol y dref.	1 Ebrill 2014	<b>31 Mawrth 2015</b>	I'w gytuno
		Y Cyngor Tref	Cynnal a chadw a gweithredu goleuadau Nadolig a gosod baneri	1 Ebrill 2014	<b>31 Mawrth 2015</b>	I'w gytuno
Dod o hyd i ddefnydd newydd ar gyfer adeiladau gwag amlwg yng Nghanol y Dref	5.1	Cyngor Sir – Uned Datblygu Economaidd a Busnes	Datblygu llety diwydiant creadigol yn eiddo gwag 49-55 Heol y Frenhines gyda chyllid trwy Lywodraeth Cymru	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2016	£1.2m

Creu unedau manwerthu mwy yng Nghanol y Dref i ddenu manwerthwyr o ansawdd.	5.1	Cyngor Sir - Polisi Cynllunio	Llunio briff datblygu ar gyfer safle Marchnad y Frenhines.	1 Ebrill 2014	<b>31 Mawrth 2015</b>	Dim
Gwella cysylltedd i weddill y dref a gwella cysylltiadau â glan y môr ar gyfer trigolion lleol a thwristiaid fel ei gilydd gydol y flwyddyn.	5.1	Cyngor Sir – Uned Datblygu Economaidd a Busnes	Datblygu strategaeth arwyddion ar gyfer y dref gan gynnwys arwyddion i gerddwyr ac arwyddion twristiaeth a ariennir drwy gyllideb refeniw gwasanaeth	1 Hydref 2013	31 Mawrth 2014	£20,000
		Cyngor Sir – Uned Datblygu Economaidd a Busnes	Gweithredu cam cyntaf arwyddion newydd yn unol â'r strategaeth canfod ffordd.	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015	£50,000
		Cyngor Sir – Traffig a Chludiant	Diwygio'r gorchymyn traffig ar North High Street / Sussex Street i ganiatáu mynediad i gerbydau dros nos.	1 Ebrill 2014	<b>31 Mawrth 2015</b>	Dim
		Cyngor Sir – Uned Datblygu Economaidd a Chymunedol	Creu mynedfa newydd i gerddwyr i'r maes parcio tanddaearol sy'n rhoi mynediad hawdd i'r Stryd Fawr gyda chyllid gan y gyllideb refeniw gwasanaeth	1 Ionawr 2014	30 Mehefin 2014	£2,000

		Cyngor Sir – Traffig a Chludiant	Adolygu dewisiadau cludiant yng nghanol y dref ac ar hyd y promenâd (e.e. trên tir neu welliannau i lwybrau bws)	1 Ebrill 2014	<b>31 Mawrth 2015</b>	Dim
--	--	-------------------------------------	--	------------------	---------------------------	-----

### Gwneud iddo ddigwydd...

ar gyfer yr economi

Gweithgaredd	Cyfeirnod Strategaeth Uchelgais Economaidd	Bydd hyn yn cael ei arwain gan	Canlyniad	Dechrau	Gorffen	Cost
Gwella mynediad i ardaloedd cyflogaeth i bobl leol, e.e. cludiant cyhoeddus i Barc Busnes Llanelwy a chyfleoedd sy'n deillio o ddatblygiad y safle cyflogaeth strategol ym Modelwyddan	1.1	Cyngor Sir – Traffig a Chludiant	Gwell cysylltiadau cludiant cyhoeddus	1 Ebrill 2015	<b>31 Mawrth 2017</b>	Dim
Canfod ac egluro uchelgais a disgwyliadau'r gymuned ar gyfer safle gwag 'Ocean Plaza' yn amodol ar ganlyniad y Cais Cynllunio presennol	1.3	Cyngor Sir - Polisi Cynllunio	Llunio brîff datblygu ar gyfer safle Marchnad y Frenhines.	1 Ebrill 2015	<b>31 Mawrth 2017</b>	Dim
Edrych i mewn i'r posibilrwydd o ddatblygu Marina	3.1	Cyngor Sir - Hamdden Masnachol	Adroddiad dichonoldeb / cyfiawnhad busnes	1 Ebrill 2015	31 Mawrth 2017	I'w gadarnhau
Ailddatblygu'r cyfleusterau hamdden arfordirol, gan gynnwys yr Heulfan, y fynedfa i Theatr y Pafiliwn a Phentre'r Plant	3.1	Cyngor Sir – Bwrdd Cyfleusterau Arfordirol	Partneriaid datblygu diogel ar gyfer y safle(oedd)	1 Ebrill 2015	<b>31 Mawrth 2017</b>	Dim

Datblygu darpariaeth cyrsiau hyfforddi morol yn y Rhyl mewn partneriaeth â Choleg Llandrillo, gan ganiatáu ar gyfer datblygu sgiliau angenrheidiol ar gyfer diwydiannau cysylltiedig	4.3	Coleg Llandrillo	Bydd cyrsiau hyfforddi morol yn cael eu darparu yn y dref	1 Ionawr 2014	<b>31 Mawrth 2017</b>	Rhaglen yr UE
Ystyried gwelliannau i ganiatáu i'r Harbwr gael ei ddefnyddio i wasanaethu llongau mwy y ffermydd gwynt	3.3	Cyngor Sir - Hamdden Masnachol	Ystyried Achos Busnes	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015	Dim

### Gwneud iddo ddigwydd...

ar gyfer y lle

Gweithgaredd	Cyfeirnod Strategaeth Uchelgais Economaidd	Bydd hyn yn cael ei arwain gan	Canlyniad	Dechrau	Gorffen	Cost
Ymchwilio i opsiynau ar gyfer sicrhau bod yr arena digwyddiadau yn gallu gwrthsefyll tywydd garw i gynyddu nifer y digwyddiadau a gynhelir yn y Rhyl	3.1	Cyngor Sir – Uned Datblygu Economaidd a Busnes	Adroddiad dichonoldeb	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015	Dim
Archwilio'r posibilrwydd o greu llwybr celf yn y dref i annog symudiad cerddwyr i atyniadau allweddol	3.1	Rhyl Create	Adroddiad dichonoldeb	1 Ebrill 2015	<b>31 Mawrth 2017</b>	I'w gadarnhau
Darparu gwell mynediad i'r datblygiadau tai yn ardal De-ddwyrain y Rhyl	1.1	Cyngor Sir – Traffig a Chludiant	Gwella'r gyffordd yn Dyserth Road / Pen y Maes Avenue a ariennir gan y datblygwr drwy gytundeb a.106	1 Ebrill 2015	<b>31 Mawrth 2017</b>	I'w gytuno
Gwelliannau i'r parth cyhoeddus ar hyd y promenâd	3.1	Cyngor Sir - Strydwedd	Darparu seddau newydd a ariennir drwy'r gyllideb referniw sylfaen	1 Ebrill 2014	<b>31 Mawrth 2015</b>	£5,000

Ystyried gwelliannau pellach yn y Llyn Morol a fyddai'n cynyddu ei defnydd a gwella'r gyrchfan	3.1	Cyngor Sir - Hamdden Masnachol	Sicrhau cyllid ar gyfer gwelliannau	1 Ebrill 2015	<b>31 Mawrth 2017</b>	Dim
Gwneud y mynedfeydd a'r adwyon i mewn i'r dref yn fwy deniadol	5.1	Cyngor Sir - Uned Gwaith	Gosod goleuadau addurnol ar bont y Foryd yn ystod y gwaith atgyweirio a gynlluniwyd ar gyfer hydref 2014	1 Hydref 2014	31 Mawrth 2015	£50,000
		Cyngor Sir – Uned Datblygu Economaidd a Busnes	Gosod celf gyhoeddus mewn tair o'r prif fynedfeydd ffordd i mewn i'r dref.			
		Cyngor Sir - Rheoli Datblygu a Chydymffurfio Cynllunio	Ceisio gwella edrychiad safle Ocean Plaza nes ail-ddatblygu drwy gamau gorfodi.	1 Ebrill 2014	<b>31 Mawrth 2015</b>	Dim
		Cyngor Tref y Rhyl	Cyllido plannu rhosod lle bo hynny'n bosibl wrth adwyon i mewn i'r dref	1 Ebrill 2014	<b>31 Mawrth 2015</b>	I'w gytuno
Hyrwyddo'r Rhyl yn gadarnhaol drwy ddefnyddio straeon newyddion da	6.1	Cyngor Sir - Cyrchfannau, Marchnata a Chyfathrebu	Datblygu cynllun cyfathrebu	1 Ebrill 2014	<b>31 Mawrth 2015</b>	Dim
Ymchwilio i opsiynau ar gyfer gwneud defnydd o rydd-ddaliad y Cyngor Sir o'r safle lle'r oedd yr hen bier yn sefyll	3.1	Cyngor Sir - Datblygu Economaidd a Busnes	Astudiaeth dichonolrwydd	1 Ebrill 2015	31 Mawrth 2017	Dim
Sicrhau datblygiad cyfleusterau o safon uchel yn y caffi Harbwr a'r parth cyhoeddus	3.1	Cyngor Sir – Hamdden Masnachol	Cynnwys meini prawf ansawdd yn y dogfennau tendr ar gyfer gweithredwr y caffi	1 Ebrill 2014	<b>31 Mawrth 2015</b>	Dim



Datblygu'r cysylltiadau rhwng llwybrau beicio arfordirol a llwybrau beicio ar y tir	1.1	Grŵp Connect2	Datblygu cyswllt beicio rhwng Llyn Morol a Glan Morfa	1 Ebrill 2017	31 Mawrth 2021	I'w gadarnhau
Annog y defnydd o draeth Rhodfa'r Dwyrain i ymdrochwyr	3.1	Cyngor Sir - Hamdden Masnachol	Darparu cadeiriau plygu o'r orsaf achubwyr bywyd yn ystod tymor yr haf a ariennir drwy gyllideb refeniw sylfaen	1 Ebrill 2014	<b>31 Mawrth 2015</b>	£5,000
Rhoi cyfle i wahodd atyniadau ychwanegol ar hyd y promenâd sy'n ategu'r cyfleusterau presennol a gwella'r cynnig	3.1	Cyngor Sir - Strydwedd	Nodi a chytuno ar y lleoliad a ffefrir i leoli atyniadau newydd.	1 Ebrill 2014	<b>31 Mawrth 2015</b>	Dim
		Cyngor Sir – Asedau Strategol	Sicrhau datganiadau o ddiddordeb gan ddarparwyr priodol	1 Ebrill 2015	<b>31 Mawrth 2017</b>	Dim

## Blaenoriaethau'r Cynllun Tref ac Ardal

Cyfraniadau sydd eu hangen gan gyllideb y Cynllun Tref ac Ardal

Creu strydwedd mwy deniadol yng Nghanol y Dref -	£200,000
<ul style="list-style-type: none"><li>Manteisio ar y cyfleoedd a ddarperir gan gyfleoedd priffyrdd a gynlluniwyd i ystyried lledu'r ffordd a gwelliannau i gael eu gwneud i'r strydwedd.</li><li>Gwelliannau strydwedd i gynnwys goleuadau addurnol unffurf, dodrefn stryd newydd a phlannu.</li><li>Gosod gwifrau crog lle bo hynny'n ymarferol.</li></ul>	
Gwelliannau i'r adwyon allweddol i mewn i'r trefi i gynnwys adfer goleuadau addurnol ar bont y Foryd a chyflwyno nodweddion adwy.	£50,000
Dechrau gweithredu'r strategaeth arwyddion canfod ffordd newydd i gerddwyr a thwristiaeth.	£50,000



## **Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni ar y trywydd cywir?**

Bydd y Cyngor Sir, ynghyd â Chyngor Tref y Rhyl, yn cynnal adolygiadau blynyddol ar y cynnydd. Bydd Grwpiau Aelodau Ardal y Cyngor Sir a'r Cyngor Tref yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd a bydd Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg ac erthyglau yn Llais y Sir. Bydd y Cynllun yn ddogfen fyw lle gellir ychwanegu a dileu dyheadau yn dibynnu ar y sefyllfa.

## **Pwy sydd wedi llunio'r cynllun?**

Cafodd y cynllun hwn ei gynhyrchu gan Gyngor Sir Ddinbych yn dilyn ymgynghoriadau gyda Chynghorwyr Sir a Gwasanaethau, y Cyngor Tref, y Grŵp Busnes, ysgolion uwchradd a'r gymuned ehangach.

**I gael rhagor o wybodaeth:**  
**[econ.dev@denbighshire.gov.uk](mailto:econ.dev@denbighshire.gov.uk)**

<b>Atodiad Ystadegol</b>			
Data cyfrifiad 2011			
<b>Canran y ...</b>	<b>Yn y Rhyl</b>	<b>Y Rhyl ac eithrio Gorllewin a De-orllewin</b>	<b>yn Sir Ddinbych</b>
Pobl ifanc 15 oed neu iau	19.7	17.2	18.1
Pawb dros 65 oed neu hŷn	18.7	22.8	21.1
Pawb dros 85 oed neu hŷn	2.1	2.7	2.8
Cartrefi gorllawn	6.7	3.9	4.5
Hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith	6.3	4.1	4.2
Ymdeoliad cynnar	17.0	19.7	18.5
Pobl a aned yng Nghymru	54.7	55.5	58.1
Pobl dros 3 oed sy'n gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg	22.2	23.5	35.4
Preswylwyr sy'n gweithio a gaiff eu cyflogi mewn gwestai a bwytai	7.5	5.8	6.9
Trigolion sy'n gweithio mewn gweithgynhyrchu	8.5	8.6	9.1
Trigolion sy'n gweithio mewn manwerthu	17.8	16.5	14.4
Trigolion sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus	33.8	35.6	35.7

<b>Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru</b>			
<b>Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is</b>	<b>Safle yn 2005</b>	<b>Safle yn 2008</b>	<b>Safle yn 2011</b>
Dwyrain y Rhyl 1	300	301	479
Dwyrain y Rhyl 2	887	599	1040
Dwyrain y Rhyl 3	242	162	216
Y Rhyl De 1	608	598	533
Y Rhyl De 2	1058	1081	1142
De Ddwyrain y Rhyl 1	797	692	752
De Ddwyrain y Rhyl 2	1052	1033	1048
De Ddwyrain y Rhyl 3	947	840	1053
De Ddwyrain y Rhyl 4	167	235	287
De Ddwyrain y Rhyl 5	1491	1517	1455
De Orllewin y Rhyl 1	114	94	96
De Orllewin y Rhyl 2	25	18	12
De Orllewin y Rhyl 3	779	717	586
Y Rhyl Gorllewin 1	17	4	7
Y Rhyl Gorllewin 2	11	1	1
Y Rhyl Gorllewin 3	79	88	34

*Rhyf*

